## P-04-330 Cofnod Cymraeg yn ein Cynulliad ni

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn pryderu am statws a defnydd y Gymraeg yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Gymraeg bellach yn iaith swyddogol yng Nghymru, ac rydym yn falch iawn o'r datblygiad hwn. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i adael i'r Cofnod - dogfen o'r pwys symbolaidd mwyaf - droi bellach yn ddogfen uniaith Saesneg ar y cyfan, ar ôl iddi fod yn gwbl ddwyieithog ers 1999, yn gwbl groes i'r datblygiad hwn ac yn sathru ar statws swyddogol y Gymraeg.

Galwn felly ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddychwelyd at y polisi o ddarparu Cofnod dwyieithog cyflawn fel y gall pobl Cymru ddarllen trafodion Cynulliad yn eu hiaith eu hunain, boed hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mater o egwyddor yw hyn, parchu hawliau iaith pobl Cymru ar lefel sylfaenol.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Catrin Dafydd a chasglwyd 1334 o lofnodion arni. Mae gwybodaeth gefnogol gan y deisebwr wedi'i chynnwys isod.